



Gwybodaeth i Rieni

YSGOL MORFA NEFYN

Lôn yr Eglwys
Morfa Nefyn
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6AR



Y Cychwyn gorau!

PENNAETH: Miss Nia Ferris

☎ 01758 720 870

✉ niaferris@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan yr ysgol: www.ysgolmorfa.com

Gweledigaeth yr ysgol:
Pob plentyn gyda llais,
yn hyderus
ac yn hapus.

Canlyniad ESTYN
2015:
Rhagorol

Annwyl Rien/ Gwarchodwyr,

Ysgol ar gyfer y Babanod a phlant hyd at Flwyddyn 3 yw Ysgol Morfa (plant 3-8 oed). Gobeithiwn y bydd y plant yn treulio blynyddoedd cyntaf eu haddysg mewn awyrgylch hapus a chartrefol gan ddatblygu'n addysgol a chymdeithasol.

Mae ein hadeilad ysgol a adeiladwyd yn 1982 yn ymgorffori un llawr sy'n abl iawn ar gyfer plant ag anawsterau corfforol. Mae'r adeilad modern hwn wedi ei addasu ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn ffodus fod yr ysgol yn eistedd mewn tir sy'n darparu digon o gyfleoedd ar gyfer dysgu a chwaraeon awyr agored.

Ymdrechwn yn galed i wneud yn siwr eu bod yn cael amrywiaeth o brofiadau diddorol a pherthnasol mewn awyrgylch ddiogel a chyfeillgar er mwyn iddynt dyfu yn bersonau annibynnol a chyfrifol. Ymdrechwn i gynnal amgylchedd hapus sy'n meithrin plant bywiog, brwdfrydig a llawn diddordeb ac i hybu lechyd a Lles corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion a'r staff.

Mae'n bwysig ein bod ni fel athrawon yn cydweithio yn agos gyda chwi rieni er mwyn sicrhau yr addysg orau i'r plant. Mae gan Ysgol Morfa bolisi "drws agored" bob amser ac y mae croeso i chi wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.

Edrychwn ymlaen i gyd-weithio â chi er mwyn gwneud cyfnod eich plentyn yn Ysgol Morfa yn un hapus, diddorol a llwyddiannus.

Yn gywir

Nia Ferris

Nia Ferris, Pennaeth

Canlyniadau Profion 2016

Cantyniadau 2016 profion Blwyddyn 3 Ysgol Morfa Nefyn
Ysgol Morfa Nefyn Year 3 Tests results 2016:

Pravf mathemateg gweithdrefnol <i>Numeracy procedural test</i>	90% o blant wedi cael sgôr o 83% neu fwy 90% of children scored 83% or more
Pravf mathemateg rhesymu <i>Numeracy reasoning test</i>	50% o blant wedi sgorio 100% 92% o blant wedi cael sgôr o 90% neu fwy 50% of children scored 100% 92% of children scored 90% or more
Pravf darllen <i>Reading test</i>	80% o'r plant wedi cael sgôr o 90% neu fwy 80% of children scored 90% or more

Gwybodaeth Cyffredinol

Ble mae'r ysgol?



ESTYN 2015 Ysgol Morfa Nefyn:

Staff yr ysgol

Ceir yma restr o'r staff sy'n llunio ein tim cyfeillgar yn ysgol Morfa:



Athrawes blynyddoedd Meithrin,
Derbyn a Blwyddyn 1
Miss Nia Ferris
(Pennaeth)



Athrawes blynyddoedd 2 a 3
Mrs Medwen Pari


Perfformiad presennol Ysgol Morfa	Rhagorol Pwllheli
Rhagolygon gwella	Rhagorol
Pa mor dda yw'r deilliannau?	Rhagorol
Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Rhagorol
Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?	Rhagorol

Cymhorthydd dosbarth
Miss Elen Owen

Cymorthydd ADY
Miss Sioned E Jones

Cymorthydd ADY
Miss Rachel Williams

Waeth beth fo eu teitl swydd, mae staff yr ysgol i gyd yn gweithio i sicrhau bod y disgyblion yn cael y profiadau gorau posib yn eu bywyd ysgol.



Statws

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod ac un blwyddyn lau). Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol.

Y Corff Llywodraethu

Cadeirydd y Llywodraethwyr:
Miss Nerys Wyn Jones

Pennaeth:
Miss Nia Ferris

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg:

Mrs Lora G Williams
Miss Nerys Wyn Jones

Cyfethol/Cymunedol:

Mr Gareth Jones
Mrs Sian Fôn Williams

Cynrhychiolwyr rhieni:

Miss Karen Vaughan Jones
Mr Gareth Wright
Mrs Nia Jane Midwood

Cynrhychiolwyr Cyngor Cymuned:

Cynghorydd Sian Hughes

Cynrhychiolydd athrawon:

Mrs Medwen Pari

Clerc y Llywodraethwyr:

Mrs Nia Wyn Williams

Mae'r Corff Llywodraethu yn cynrhycholi'r cyhoedd gyda rhedeg yr ysgol. Daw Llywodraethwyr yr Ysgol â phersbectiau o fywyd cyffredin. Maent yn gweithio gyda'r staff a'r Awdurdod Lleol i gynorthwyo'r ysgol i ddarparu'r addysg orau posib ar gyfer yr holl blant a'r bobl ifanc. Mae gan y Llywodraethwyr gyfrifoldebau pwysig megis cyllideb yr ysgol, goruchwyllo'r Cwricwlwm a phenodi staff. Ceir atebolrwydd o'r naill du rhwng y llywodraethwyr, Pennaeth â'r tim arweiniol. Byddant yn cyflwyno adroddiad blynyddol yn ystod Tymor yr Hydref i'r rhieni.

Pwy sydd yn helpu yn yr ysgol?

Cynorthwywraig amser cinio:

Mrs Tracey L Williams
Goruchwyllo amser cinio:
Mrs Lona Wyn Roberts
Cynorthwywraig Clerigol:
Miss Sioned Ellen Jones
Gofalwraig a Glanhawraig:
Mrs Lona Wyn Roberts

Pryd gaiff fy mhlentyn ddechrau yn y Dosbarth Meithrin ac Addysg Lawn Amser?

Dosbarth Meithrin:



Os bydd eich plentyn yn 3 i 4 oed rhwng 1af o Fedi a 31ain o Awst yn y flwyddyn academiaidd ac y byddech yn hoffi manteisio ar Addysg Feithrin rhan-amser, dylech gysylltu â'r

Pennaeth cyn gynted ag y bo modd. Cynhelir 5 sesiwn yn y prynhawn rhwng 1:00 a 3:00. Bydd cymhorthydd yn derbyn y plant am 1:00 ac yna yn eu cludo at giât yr ysgol am 3:00 o'r gloch y prynhawn.

Addysg Lawn Amser

Derbynir plant i'r ysgol yn llawn amser yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae hysbysebion yn cael eu gosod fel arfer yn y wasg. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw o fewn ardal dalgylch Ysgol Morfa. Mae'r AALL yn gyfrifol am ystyried ceisiadau o'r tu allan i'r dalgylch.

Trefn y dydd

Cewch ollwng eich plentyn wrth giât yr ysgol neu wrth brif fynedfa'r ysgol lle bydd aelod o staff yn bresennol i oruchwyllo y plant o 8:35 y bore. Bydd y plant yn cael eu hebrwng at giât yr ysgol am 3:00 y prynhawn gan yr athrawon. Rhyddheir plant yn unig pan fo'r athrawon yn gweld y rhiant neu'r gofalwr penodedig. Gofynnwn i chi anfon llythyr os yw unrhyw drefniadau cludiant/nôl yn wahanol i'r drefn arferol.

Trefn y diwrnod

Bore 8.45 – 10.30
10:30 – 10:40 (amser llefrith a ffrwythau)
10.40 – 11.00 (amser chwarae)
11.00 – 12.00

Cinio 12.00 – 1.00

Prynhawn 1.00 – 2.20
2.20 - 2.30 (amser chwarae)
2.30 – 3.00

Ni fydd plant Blwyddyn 3 yn cael amser chwarae prynhawn.

Oriau Dysgu:

Babanod- 22.45 awr
lau- 24 awr

Derbyniadau

Trefniadau dyddiol

- Cesglir arian cinio o £2.50 (£12.50 yr wythnos) ynghyd â £1 arian ffrwyth ar fore Llun yn unig.
(Mae'n hanfodol yr anfonir arian neu sieciau mewn amlen wedi ei nodi'n eglur gydag enw a dosbarth y plentyn.)
- Gofynnir am £2.20 tâl bws i fynd â'r plant i'r Ganolfan Hamdden i wersi nofio. Cewch dalu am y bws yn wythnosol neu dalu am y cwbl ar ddechrau'r tymor (£22.00 am ddeg gwers).
- Ni chaniateir fferins na chreision yn yr ysgol. Rydym yn annog y plant i fwyta ffrwythau am gôst o £1.00 yr wythnos. Mae'r plant yn cael dewis ffrwyth o'r siop ffrwythau yn ystod egwyl y bore. Plant blwyddyn 3 sydd yn gyfrifol o'r siop ffrwythau gan rannu ac archebu y ffrwythau.
- Bydd y plant yn cadw eu dillad Addysg Gorfforol mewn bagiau pwrpasol yn yr ysgol. Gofynnir i chi wneud yn siwr bod ganddynt grys 'T' a throwsus cwta. Yn ystod Tymor yr Haf mae gofyn iddynt gael pâr o esgidiau ysgafn er mwyn cael gwersi Addysg Gorfforol.
- Rydym yn annog y plant i brynu potel o ddŵr yn yr ysgol am gost o £1. Mae angen dod a'r botel i'r ysgol BOB DYDD a'i chludo adref i'w golchi.
- Mae plant dan bump oed a phlant Cyfnod Sylfaen yn cael llefrith am ddim. Os yw plant blwyddyn 3 yn dymuno, fe allent brynu llefrith yn yr ysgol am bris rhesymol o 10c y dydd. Fe gesglir yr arian bob hanner tymor.
- Byddwn yn eich llythyru ym mis Medi i ofyn am ganiatad y canlynol:
 - ❖ Tynnu llun eich plentyn mewn gweithgareddau amrywiol yn yr ysgol.
 - ❖ mynd ar deithiau o gwmpas y pentref
 - ❖ rhifau ffôn cyswllt ac mewn argyfwng
 - ❖ Diogelwch y wê

Cymuned yr Ysgol

Mae ein cymuned ysgol wedi ei ffurfio o blant, rhieni, athrawon, staff cefnogi a Llywodraethwyr. Mae gan bawb eu rhan i chwarae a daw hyn â chyfrifoldebau arbennig gydag ef.

Plant

- Dod i'r ysgol gyda'u rhieni a'u cyfeillion
- Gwneud eu gorau bob amser ym mhopeth a wnant
- Dod yn annibynnol mewn rheoli eu meddiannau eu hunain
- Deall a dilyn rheloau
- Dilyn gweithdrefnau dosbarth
- Parchu'r staff

Rhieni

- Dod â'u plant i'r ysgol ar amser.
- Sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol
- Ffonio'r ysgol diwrnod cyntaf o absenoldeb ag anfon nodyn o eglurhad am yr absenoldeb.
- Cefnogi eu plentyn drwy ddarllen yn ddyddiol a'u hannog i gwblhau unrhyw dasgau gwaith cartref
- Rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw bryderon y gall fod ganddynt am les eu plentyn
- Labelu holl eiddo eu plentyn.
- Sicrhau bod eu plentyn yn gwisgo ddillad addas ar gyfer gwersi Addysg Gofforol.

Credwn mewn:

"Ysbryd o gydweithredu a pharch"

Athrawon

- Bod yn gyfrifol am y plant rhwng 8:35 yb a 3:00yp.
- Gweithio'n glos gyda rhieni i ddatblygu pob plentyn i'w lawn botensial.
- Darparu ansawdd uchaf o addysg bob amser.

Llywodraethwyr

- Cefnogi a chynorthwyo'r Pennaeth yng nghyfeiriad strategol yr ysgol.

Y Cylch meithrin

Mae **cyswllt clos ac effeithiol** rhwng y Cylch Meithrin ac Ysgol Morfa Nefyn. Yn ogystal â chreu **cymuned glos** yn y pentref, mae hyn yn sicrhau fod plant yn trosglwyddo yn **hyderus**. Mae **cyd-weithio clos** rhwng arweinydd y cylch ac athrawes cyfnod sylfaen yr ysgol yn sicrhau fod **addysg rhagorol** yn cael ei gyflwyno.

Y Gymuned - Ysgol â'r Cartref

Mae'r ysgol hon yn credu bod partneriaeth hapus ac agored rhwng y cartref a'r ysgol yn holl bwysig. Gwahoddir rhieni i gymryd diddordeb bywiog yn addysg eu plant ac i feithrin cysylltiad iach rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mae yna nifer o achlysuron y byddwn yn gwahodd rhieni i'r ysgol. Mae nifer o weithgareddau cymdeithasol fel y gall rhieni ddod i adnabod yr ysgol a'r staff yn dda.

Gwahoddir rhieni i'r ysgol dair gwaith yn ystod y flwyddyn addysgol. Yn nhymor yr Hydref, trefnir

apwyntiadau i rieni gyfarfod ag athrawes newydd eu plant, a thrafod targedau ar gyfer y flwyddyn. Bydd yr athrawes yn cael sgwrs ychwanegol gyda'r rhieni am Addysg yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn ystod yr ail dymor, gwahoddir rhieni i 'Ddiwrnod Agored' i wylïo'u plentyn yn ei (h)amgylchedd ddosbarth a gweld eu gwaith. Yn ystod tymor yr Haf caiff rhieni y cyfle i drafod safon gwaith y plant gyda'r athrawes ddosbarth gan gyfeirio at ganlyniadau unrhyw brofion safonedig a gynhaliwyd a thargedau newydd y plant.

Rydym yn gofyn yn aml am gefnogaeth rhieni i ddarparu cludiant i ddigwyddiadau lleol. Peidiwch a bod themlo'n annifyr os byddwn yn gofyn i wirfoddolwyr gwblhau gwiriad DBS – mae'n ofyniad cyfreithiol.

Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth a cydweithrediad rhieni yn fawr iawn.

Y Gymuned Ehangach

Rydym o bryd i'w gilydd yn cyflwyno arian ar ran yr ysgol i wahanol elusenau. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Eglwys Gatholig, Eglwys Santes Fair neu yng Nghapel Moreia. Ar rai adegau arbennig o'r flwyddyn byddwn yn ymweld a chartrefi henoed y pentref. Bydd y cyngerdd Nadolig a'r cyngerdd Gŵyl Ddewi yn cael ei gynnal yn y Clwb Golff neu Ganolfan y pentref. Amcanwn i baratoi disgyblion ar gyfer bywyd oedolion yn eu cymuned drwy feithrin ysbryd o gydweithredu a pharch tuag at ei gilydd a'r bobl o'u hamgylch.

Rydym yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu yn eu hamgylchedd eu hunain, gan gynnig sesiynau mewn gweithgareddau awyr agored a manteisio ar gyfleoedd i ymchwilio traethau a mannau gwyrdd gerllaw'r ysgol. Rydym yn trefnu ymweliadau'n rheolaidd i leoedd o ddiddordeb yn deithiau natur, orielau a busnesau lleol.



Clwb gofal cyn ysgol a chlwb brecwast



Rydym yn cynnal 'Clwb gofal cyn-ysgol a chlwb

brecwast' bob bore. Mae'r clwb gofal cyn-ysgol rhwng 8:00 – 8:20yb (tâl o 80c y sesiwn) a'r clwb brecwast am ddim rhwng 8:20 – 8:35.

Yn ogystal, rydym yn cynnal 'Clwb amser Tê' yma yn yr ysgol bob prynhawn Mawrth a phrynhawn Iau. Clwb ar ôl ysgol yw'r clwb hwn lle bydd cyfle i'r plant fynychu'r clwb rhwng 3:00 – 5:00 yp. i gymeryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys chwarae gemau buarth, gwylïo DVD, peintio, coginio, gwneud gwaith Celf a Chrefft, chwarae pêl-droed, teithiau natur a.y.y.b. Cost y sesiwn yw £5.50 am ddwy awr. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael iddynt.



Bydd clybiau amrywiol eraill yn cael eu cynnal gan athrawon yr ysgol yn achlysurol drwy'r flwyddyn e.e clwb coginio, clwb cadw'n heini, clwb garddio, clwb cyfrifiadurol a.y.y.b.

Cymdeithas Rien i a Ffrindiau yr ysgol

Mae'r Gymdeithas rieni yn trefnu nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn helpu yr ysgol i dalu am driprau ac adnoddau newydd i'r plant yn yr ysgol. Trefnir nosweithiau amrywiol fel Ffair Haf/Nadolig, teithiau cerdded, Ocsiwn Addewidion, Bingo, cyngerdd Gŵyl Ddewi a nosweithiau Cymdeithasol. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y trefnu.

Credwn fod y Gymdeithas yn cyflawni'r isod:

- rhoi cyfle i rieni a staff gyfarfod er lles y plant a'r ysgol.
- bod yn gyfrwng i rieni newydd ddod i adnabod yr ysgol a chymdeithasu gyda'i gilydd.
- codi arian ar gyfer yr ysgol er mwyn cyfoethogi adnoddau'r ysgol.
- i drefnu cyfarfodydd o ddiddordeb addysgol, diwylliannol neu gymdeithasol ar gyfer y rhieni, staff, disgyblion ar gymuned ehangach.
- I gefnogi gwaith y Pennaeth a'r Llywodraethwyr i sicrhau gwelliannau yn ôl yr angen.

Cynhelir cyfarfod Blyneddol y Gymdeithas Rieni yn fuan ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi. Mae croeso i bob un ohonoch i fod yn aelodau o'r gymdeithas hon. Buasem yn hynod o ddiolchgar petaech yn cefnogi'r Gymdeithas yn ei hymdrechion a cheisio mynychu cymaint o gyfarfodydd ag y bo modd. Po fwyaf llwyddiannus y gall y gymdeithas hon fod, po fwyaf yr enillion i'r ysgol. Mae'r Gymdeithas wedi cael cefnogaeth

dda iawn gan rieni yn y gorffennol ac apeliwn ar i bob rhiant newydd eu cefnogi.

Y swyddogion cyfredol yw:

Cadeiryddes - Miss Angharad Jones
Trysoryddes - Mrs Tesni Jones
Ysgrifenyddes- Mrs Nia Lloyd Jones


Codi tâl am weithgareddau

Rydym yn awyddus iawn i drefnu gweithgareddau diddorol i'r plant. Weithiau byddwn yn gofyn i rieni am gyfraniad tuag at daith neu ymweliad arbennig.

Ar hyn o bryd gofynir am gyfraniad o £2.20 y pen i dalu am fws i fynd â'r plant i nofio i'r Ganolfan Hamdden unwaith yr wythnos. Ceisiwn ein gorau i gadw y costau yn rhesymol. Gallwch dalu yn wythnosol neu dalu y cwbl ar ddechrau'r tymor.

Gwisg ysgol

Mae gan yr ysgol wisg ffurfiol. Disgwylir i'r plant ei gwisgo yn rheolaidd onid fod rheswm digonol dros beidio. Teimlir fod gwisg ysgol yn arwain at falchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. A fydddech mor garedig â sicrhau bod enw eich plentyn wedi ei nodi'n eglur ar bob darn o ddillad.



Genethod	Bechgyn
Polo gwyrdd	Polo gwyrdd
Siwmpwr neu gardigan- glas tywyll	Siwmpwr – glas tywyll
Sgert neu drowsus glas tywyll	Trowsus bach/hir glas tywyll
Ffrog haf glas a gwyn	

Rydym yn awyddus i'r plant wisgo dillad Addysg Gorfforol ffurfiol :

- **Crys chwys melyn**
- **Trowsus byr glas tywyll**

Bydd hyn yn gymorth pan fyddwn yn mynd i'r Ganolfan Hamdden ym Mhwlheli.



Gellir archebu'r wisg ysgol a gwisg Addysg Gorfforol trwy fynd ar wefan yr ysgol www.ysgolmorfa.org - gweler linc yno.

Mae'n bwysig bod y plant yn gwisgo esgidiau neu 'drainers' addas am eu traed.

Cyngor Ysgol



Dyma'r Cyngor Ysgol eleni. Mae'r cyngor ysgol yn bodoli i sicrhau bod y disgyblion yn gallu lleisio pryderon neu syniadau'n swyddogol. Mae'r Cyngor yn cynnwys plant hynaf yr ysgol-blwyddyn 3. Mae cyngorwyr ysgol yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i drafod materion pwysig iddynt hwy eu hunain a'u cymheriaid. Mae gwelliannau'r gorffennol a wnaed yn dilyn ymyriad y cyngor ysgol, yn cynnwys cyflwyno siop ffrwythau, safle beiciau, ffrâm ddringo a threfnu wythnos cerdded i'r ysgol. Yn ogystal, byddant yn lleisio barn am addysg yn yr ysgol e.e.drwy graffu ar lyfrau.

Polisi iaith

Mae'n rhaid i bob ysgol yn yr AALL ddilyn polisi iaith Gwynedd. Yma yn Ysgol Morfa y Gymraeg yw iaith y dosbarthiadau.

Yn y dosbarth Meithrin rhoddir sylfaen gadarn i bob plentyn yn y Gymraeg o oedran cynnar-dyma'r amser gorau ar gyfer dysgu ieithoedd newydd, fel y dânt i gyrraedd y nôd o ddwyieithrwydd maes o law. Ym mlynnyddoedd derbyn, 1 a 2 adeiladir ar y sylfaeni a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg fethrin. Byddwn yn datblygu mamiaith y plentyn, dysgwyr Cymraeg a maes o law yn ymestyn gafael y plentyn Cymraeg ar y Saesneg.

Bydd y plant yn cael eu cyflwyno i'r iaith Saesneg yn ystod y tymor cyntaf ym mlwyddyn 2. Byddant yn ysgrifennu, darllen ac yn ymuno mewn gwaith llafar yn y ddwy iaith ym mlynnyddoedd 2 a 3 er mwyn eu darparu i fod rhugl yn y ddwy iaith erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Os bydd plentyn o gartref di-Gymraeg yn dod i'r ysgol ym Mlwyddyn 3 bydd yn cael cyfle i fynychu yr uned iaith yn Llanybyddi am dymor er mwyn dysgu'r iaith.

Gwaith cartref

Credwn ei bod yn hanfodol i'r plant gael cyfleoedd i ddysgu gartref yn rheolaidd gyda'u rhieni. Bydd yr athrawes ddosbarth yn dewis llyfr i blant Blwyddyn 0 a Blwyddyn 1, dwy waith yr wythnos a bydd plant Blwyddyn 2 a 3 yn dewis llyfr addas dan oruchwyliaeth yr athrawes ac yn ei ddarllen gartref yn rheolaidd bob nos.

Gofynnir am gydweithrediad y rhieni i gymryd diddordeb yn y llyfrau a'u darllen efo'r plant. Gofynnir i chi fel rhiant gofnodi bod plant Blwyddyn 0 ac 1 wedi darllen, ond gofynnir i blant Blwyddyn 2 gofnodi eu hunain. Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd Blwyddyn 3 gofynnir iddynt ysgrifennu am eu hoff lyfr yn ystod yr wythnos honno. Ambell waith gall athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol, e.e. dysgu sillafu, tablau neu er mwyn goresgyn gwendid neu ganolbwyntio ar agwedd benodol o waith. Ar adegau o'r fath, gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu'n llawn ac yn annog y plentyn i gyflawni'r gwaith.

Disgwylir i bob disgybl roi cynnig ar y tasgau hyd eithaf eu gallu.

Canlyniadau

Profir y disgyblion ar wahanol gyfnodau o'r flwyddyn i sicrhau eu bod yn datblygu fel y disgwylir a mesur cynnydd. Bydd plant Bl 2 a 3 yn eistedd profion statudol yn flynyddol ym mis Mai pob blwyddyn mewn 'Darllen, Rhifedd Gweithdrefnol a Rhesymu rhifiadol'. Dyfernir sgoriau yn deillio o'r profion i'r disgyblion a bydd cofnod manwl o ganlyniad y profion yn cael eu gyrru i'r rhieni.

Addysg Rhyw

Mae Addysg Rhyw yn rhan o'r cwricwlwm yn Ysgol Morfa. Ymdrinnir â'r maes trwy gyfrwng y Cwricwlwm Gwyddoniaeth ac Addysg Bersonnol a Chymdeithasol lle mae disgwyl i'r plant feddu ar beth gwybodaeth ynghylch y prosesau atgenhedlu mewn mamaliaid a'r cylched bywyd dynol. Byddwn yn delio ag unrhyw gwestiynau a ofynnir gan blentyn yn sensitif ac yn agored o ystyried yr amgylchiadau, y cyd-destun, oed ac aeddfedrwydd y plentyn.

Mae llawlyfr ar wefan yr ysgol yn manylu beth fydd eich plentyn yn ei ddysgu o fewn y maes hwn.

Ymddygiad

Yn ysgol Morfa credwn fod safon uchel o ymddygiad ac ethos cadarnhaol yn anhepgor ar gyfer dysgu o ansawdd. Mae ein hystafelloedd ddosbarth yn lleoedd prysur ac atyniadol. Mae'r plant yn mwynhau dysgu, yn gweithio'n galed ac yn ymddwyn yn dda. Wrth gwrs o bryd i'w gilydd, mae plant yn gwneud y dewisiadau anghywir-mae'n rhan o broses ddysgu. Pan fo hyn yn digwydd rhoddwn gyfle i'r plentyn ddysgu, o wneud penderfyniadau gwael i wella ymddygiad. Fodd bynnag, rydym yn bendant yn ein dull pe bai disgyblion yn dod yn fwy difrifol o 'aflynyddol', ein bod yn credu mewn amddiffyn hawliau dysgu a diogelwch y mwyafrif. Mae gennym nifer o strategaethau yn eu lle i ddelio â disgyblion aflonyddol: rhybuddion, Cynllun 'Webster Stratton' a pholisi ymddygiad yr ysgol.



Wrth greu awyrgylch ble mae pawb yn cael eu parchu a ble mae cwrteisi at eraill yn amlwg, mae'r ysgol yn hybu safon uchel o ymddygiad. Mae'n rhaid pwysleisio, fodd bynnag, ein bod yn falch iawn o ymddygiad **rhagorol** y disgyblion yn ysgol Morfa (gweler adroddiad **ESTYN** 2015)

Gweithdrefnau Brys

Mewn argyfwng gall y bydd yn rhaid i'r Pennaeth gau'r ysgol. Gwneir unrhyw benderfyniad i gau ysgol i sicrhau lles a diogelwch disgyblion. Ni ryddheir unrhyw ddisgybl oni fo lle diogel iddo/i fynd. Rydym yn cynnal ymarfer tân ar y safle bob tymor i sicrhau ein bod yn gallu gwagio'r adeilad yn gyflym mewn sefyllfa o argyfwng. Pe bai disgybl angen triniaeth gan barafeddyg, byddwn bob amser yn ceisio cysylltu â'r rhieni ar y cyfle cyntaf posib. Petai'r plentyn angen mynd i'r ysbyty bydd aelod o staff yn mynd gydag ef/hi os na fydd y rhieni wedi cyrraedd ar y safle. Gweithredir asesiadau risg ar anheddau'r ysgol ac o flaen ymweliadau addysgol i leihau'r risg o ddamwain.

Damweiniau a Meddyginiaethau

Byddwn yn gofalu a chysuro unrhyw blentyn sy'n mynd yn sâl yn yr ysgol neu'n cael



damwain. Os bydd yr athrawon dosbarth yn ei ystyried yn angenrheidiol, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddod i gasglu eich plentyn. Am y rheswm hwn mae'n hanfodol bod yr ysgol yn cael ei chadw'n wybodus pe bai eich manylion cyswllt yn newid. Cedwir cofnodion damweiniau mewn ffeil, ac anfonir slip damwain adref i esbonio'r hyn sydd wedi digwydd.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol os oes problem feddygol a allai effeithio ar eich plentyn tra bydd yn yr ysgol. e.e. asthma, alergedd, epilepsi.

Presenoldeb ac Absenoldeb

Mae pob diwrnod yn cyfri!

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn fod mewn addysg lawn amser erbyn dechrau'r tymor yn dilyn pumed pen-blwydd y plentyn. Mae gan yr ysgol ddyletswydd i sicrhau bod y disgyblion yn mynychu'n rheolaidd. Os nad yw plentyn yn bresennol ar gyfer sesiwn, cânt eu marcio'n absennol. Disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd fel y gellir rhoi cyfrif am absenoldeb. Rhoddwn bwyslais mawr ar gael eglurhad am bob absenoldeb. Disgwylir i blentyn sydd wedi bod yn absennol ddod â llythyr gan ei rieni yn rhoi eglurhad am ei absenoldeb neu ffonio yr ysgol. Byddwn yn annog i rieni wneud apwyntiad meddyg/dentist allan o oriau ysgol.

Mae'n rhaid i'r ysgol ddosbarthu absenoldebau fel a ganlyn:

1. **"Absenoldeb Awdurodedig"** – absenoldeb ble y ceir caniatad ar ei gyfer gan y rhieni a'r ysgol e.e plentyn wedi bod yn sal, rhieni wedi anfon llythyr o eglurhad i'r ysgol.
2. **"Absenoldeb Heb Awdurdod"** – absenoldeb ble nad yw'r ysgol wedi derbyn eglurhad boddhaol am yr absenoldeb.

Mae modd hefyd gofyn am hyd at ddeng niwrnod o wyliau mewn un blwyddyn ysgol. Mae'r Pennaeth yn ystyried y ceisiadau hyn ar sail unigol. Rydym yn annog rhieni'n gryf i beidio a thynnu eu plant allan yn ystod y flwyddyn ysgol i sicrhau dysgu effeithlon.

Mae gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgol yn cael ei chadw'n electronig gan yr AALL. Gofynnir i Swyddogion Lles Addysg ymweld â chartrefi rhieni yr ystyrir bod ffigurau presenoldeb eu plentyn yn bryder i'r ysgol a'r AALL.

Canran presenoldeb yr Ysgol 2016-17: 96%

Targed llywodraethwyr yw 96.5% am y flwyddyn 2017-18.

Cinio Ysgol

Cost gyfredol cinio ysgol yw £2.50 y dydd. Mae'r disgyblion i gyd yn bwyta cinio yn y Caban sydd ar dir yr ysgol am hanner dydd dan oruchwyliaeth oedolyn. Mae prydau am ddim ar gael i bob plentyn o deuluoedd sy'n derbyn Cynhaliath Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffurflen sydd ei hangen i hawlio'r hawliad hwn ar gael yn Swyddfa'r ysgol. Noder bod yr holl ddata Cinio Ysgol yn cael ei gasglu gan yr AALL. Mae'n rhaid talu arian ymlaen llaw. Pe bai'r AALL yn dod yn bryderus ynghylch gallu teulu i ddarparu ar gyfer eu plant, gellir gofyn am Swyddog Lles Addysg i ymweld â chartref y plentyn.

Amser Chwarae

Mae pob disgybl yn cael egwyl o'i gwersi am 10:40 y bore. Mae'r plant yn chwarae ar y buarth neu gae yr ysgol, yn dibynnu ar y tywydd. Maent yn cymysgu gyda'u cyfeillion gan annog chwarae cadarnhaol a rhannu adnoddau. Anogir plant i fod yn gorfforol weithgar yn ystod amser chwarae trwy eu hannog i ymwneud a gemau buarth traddodiadol ac ymdrin ac offer chwarae amrywiol. Bydd y plant Meithrin i Blwyddyn 2 yn cael sesiwn deng munud yn ychwanegol yn y prynhawn.



Mae'r plant i gyd yn ymweld â'r siop ffrwythau yn ystod egwyl y bore lle bydd plant blwyddyn 3 yn gweini arnynt. Ni chaniateir siocled a chreision. Yn ystod amser chwarae gwlyb, mae'r disgyblion yn aros yn eu dosbarthiadau, ond parheir i roi egwyl iddynt o'u gwaith.

Gweithdrefnau Cwynion

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu ar ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Os ydym yn benderfynol o ddatrys anhawster a fydd yn bodloni'r naill ochr a'r llall, credwn fod angen dealltwriaeth lawn o'r trefniadau ar gyfer gwneud cŵyn yn ogystal ag agwedd gadarnhaol tuag at wella'r sefyllfa.

Dylai rhiant sy'n dymuno cwyno am Drefnidadaeth neu gynnwys y cwricwlwm, ddilyn y drefn ganlynol:

(a) Cysylltu â'r pennaeth. Gwneir ymchwiliad i'r achos gan y Pennaeth (neu aelod o'r staff a enwebir gan y Pennaeth) ac fe ymatebir i'r rhiant yn uniongyrchol. (Dylai mân-gŵynion gael

eu trafod â'r athro/athrawes unigol. Os na fydd rhiant yn fodlon â'r ymateb, yna dylid cysylltu â'r pennaeth.)

(b) Os na fydd rhiant yn fodlon â'r ymateb, dylid ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethu. Gwneir ymchwiliad gan aelodau Pwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethu ac fe ymatebir ganddynt.

Iechyd a Diogelwch

- Dilynir argymhellion polisi Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae rheolau tân yn amlwg ymhob ystafell a cheir ymarferion tân yn rheolaidd
- Cyfrifoldeb y plentyn yw unrhyw eiddo personol. **Dylid marcio popeth!** (dillad, bagiau, pyrsiau, cotiau) yn glir gydag enw'r plentyn.
- Ni chaniateir dringo libart yr ysgol, y wal na'r ffens. Os oes pêl wedi mynd dros wal, yna rhaid unai aros hyd ddiwedd amser chwarae neu gael caniatad oedolyn i'w nôl.
- Ceir system ddiogelwch ar ddrysau'r ysgol ac felly maent ar glo yn ystod amser gwersi. Golyga hyn bod yn rhaid i bawb-gan gynnwys disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr, ganu gloch y prif fynediad i gael mynediad.
- Nid oes unrhyw gerbyd yn cael mynediad ar iard yr ysgol heb gael caniatad y Pennaeth.

Chwaraeon a gweithgareddau corfforol

Byddwn yn cael gwersi nofio yn y Ganolfan Hamdden ym Mhwlheli unwaith yr wythnos ac y mae gwersi Addysg Gorfforol e.e gymnasteg, dawns a



chwaraeon yn rhan o amserlen y ddau ddosbarth. Yn ystod tymor yr Haf bydd y plant Bl 2 a 3 yn ymwneud a thair gweithgaredd yn y Ganolfan Hamdden: Caiacio, ffrâm ddringo ac achub bywyd.

Rydym yn cynnig clwb 'Cadw'n Heini' ar ôl ysgol (ar rai adegau o'r flwyddyn) i blant o Blwyddyn 1 i fyny i Blwyddyn 3.

Mae plant Blwyddyn 3 yn cael ymuno gyda phlant y dalgylch mewn twrnament pêl droed, rygbi, hoci ac athletau bob tymor.

Yn ogystal, bydd cyfle i blant Blwyddyn 3 gystadlu yng ngala nofio Ysgolion y Dalgylch.

Anghenion Ychwanegol

Dilynir Polisi Anghenion Addysgol Arbennig (A.A.A.) yn yr ysgol yn unol â'r Côd Ymarfer.

Sicrhau ein bod yn adnabod anghenion addysgol pob disgybl yn gynnwys er mwyn ymateb i'r anghenion hynny.

Byddwn yn hybu cydweithrediad clos gyda rhieni ac unrhyw Asiantaethau allanol yn ôl y galw.

Cynllunir Cynllun Addysg Unigol ar gyfer y plant i ymateb i'r anawsterau/gofynion a byddwn yn eu hadolygu yn rheolaidd.

Byddwn bob amser yn sensitif i ofynion y plant ac yn barod i ganmol y llwyddiannau er mwyn codi hunan hyder a hunan barch y plentyn.

Bydd pob plentyn yn ymuno a holl weithgareddau'r ysgol, ac yn cael sylw unigol fel bo'r angen. Byddant yn cael gwaith unigol ac yn cael cyfle i gydweithio â phlant.

Mae'r ysgol yn ymgorffori un llawr sy'n addas i unrhyw un ac anabledd corfforol.

(Mae copi o'r Polisi A.A.A. yn yr ysgol i unrhyw un a ddymunai ei ddarllen).

Plant MATH

Bydd yr ysgol yn hyrwyddo ac ymestyn talentau plant yr hystyrir i fod yn abl a thalentog mewn maes arbennig. Bydd hyn yn cel ei wneud drwy gwricwlwm arferol yr ysgol a/neu drwy hwyluso cyfle i'r plant yma ddatblygu'r dalent. Trafodir y ddarpariaeth arbennig i'r plant yma yn ystod nosweithiau rhieni.

Cydraddoldeb

Mae Ysgol Morfa yn hybu cydraddoldeb ym mhob agwedd o waith yr ysgol gan gynnig mynediad llawn i'r Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol i bob plentyn heb wahaniaethu yn unol a Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran iaith, rhyw, oed, crêd, gallu na chenedl neu gefndir y plentyn.

Mae gan yr ysgol bolisi a Chynllun Cydraddoldeb Strategol a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod hwn yn cael ei weithredu yn deg ac yn briodol i bawb sydd yn mynychu yr ysgol.

Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo cydraddolwyr anabl, a thrwy ein Cynllun Cydraddoldeb Anabl rydym yn annog mewnbyn i'r gymuned ysgol gyfan.

Cefnogi Plant mewn Gofal

Mae gan pob plentyn yng ngofal yr awdurdod leol yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg a derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn

gymdeithasol. Er mwyn cefnogi a hyrwyddo cyflawniad y disgyblion hyn bydd yr ysgol yn:

- sicrhau bod aelod o staff wedi ei ddynodi i dderbyn cyfrifoldeb penodol am ddisgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol (y pennaeth)
- sicrhau ein bod yn monitro absenoldeb disgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, a chyflwyno adroddiad i'r awdurdod addysg
- sicrhau awyrgylch ethos gadarnhaol parthed disgyblion yng ngofal yr awdurdod, gan greu ysgol ple mae stereoteipio negyddol am y disgyblion hyn yn cael ei herio.
- bod yn ymwybodol o sensitifrwydd gwahardd disgyblion sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol, gan gydnabod yr angen i blant felly dderbyn addysg ddi-fwlch.
- sicrhau bod pob disgybl yn meddu ar Gynllun Addysg Personol (CAP).

Cyfrifoldeb yr ysgol, ar ôl ymgynghori gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau priodol yw llunio CAP. Dylid cytuno â'r CAP cyn gynted â bo modd, ac o fewn 20 diwrnod fan bellaf ar ôl i'r plentyn fynd i ofal neu i ysgol newydd. Sicrhau bod unrhyw anghenion addysgol arbennig yn cael eu darparu mewn cydweithrediad a'r Cydgysylltydd Anghenion Arbennig yn yr ysgol (Pennaeth).

Trosglwyddo

Pan fo'r plant yn 8 oed ar derfyn Blwyddyn 3, byddant yn trosglwyddo i **Flwyddyn 4** yn Ysgol Nefyn. Byddwch yn derbyn Llawlyfr Gwybodaeth o Ysgol Nefyn yn ystod Tymor yr Haf. Bydd cyfle i'r plant ymweld â'r ysgol a threulio diwrnod yno.

Amddiffyn Plant

**Polisi Amddiffyn Plant –
Gweler gwefan yr ysgol > Rhieni>Dogfennau**

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol bod gan ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn golygu:

- ❖ y bydd gan yr ysgol bolisi gweithdrefnau amddiffyn plant
- ❖ y dylai'r ysgol ofalu fod rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o'i pholisi amddiffyn plant.
- ❖ y bydd efallai angen cyfeirio eu plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol os ydynt yn credu bod y plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol;

- ❖ y dylai'r ysgol geisio gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn ddiduedd os yw eu plentyn yn cael ei cyfeirio;
- ❖ y dylai'r ysgol helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall os cyfeirir y plant i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, yna gwneir hynny er lles gorau'r plentyn ac adrodd i'r heddlu o ran lles a chynnydd addysgol eu plentyn
- ❖ y bydd yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni / gofalwyr yn gyson ynghylch lles a chynnydd addysgol y plentyn.

Os ydych yn poeni am eich gallu eich hun i ymdopi, poeni am ddiogelwch eich plentyn neu blentyn arall gadewch i'r ysgol wybod ar unwaith.

Person Dynodedig Amddiffyn Plant:

Miss Nia Ferris

Y Llywodraethwyr Dynodedig:

Mrs Sian Fon Williams

Miss Karen Vaughan Jones

Swyddog Dynodedig Adran Addysg Gwynedd:

Mrs Ffion Rhisiart: (01766) 771000

Tim Gwasanaethau Plant

Cymdeithasol Pwllheli:

(01758) 704455

os oes cwyn yn erbyn y pennaeth dylid cysylltu a'r Swyddog Adran Addysg neu'r Llywodraethwyr Dynodedig.

Efallai y bydd y canlynol yn ddefnyddiol:-

- gwnewch amser i siarad â'ch plentyn a gwrando arno/arni;
- dewch i adnabod ffrindiau ac arferion beunyddiol eich plentyn;
- byddwch yn sensitif i unrhyw newid yn ei ymddygiad;
- dysgwch eich plentyn i deimlo'n hyderus i wrthod gwneud unrhyw beth os nad yw'n teimlo'n iawn;
- byddwch yn ymwybodol o sut mae'ch plentyn yn defnyddio'r rhyngwrwyd a'i ffôn symudol, fel nad yw'n rhoi ei hun mewn perygl.

Mwy o wybodaeth gan gynnwys copi llawn o'r arweiniad, Y Polisi Amddiffyn Plant a gwybodaeth am gadw'n saff i blant ar wefan yr ysgol.

www.morfanefyn.gwynedd.sch.uk

Trefniadau pellach i sicrhau diogelwch disgyblion:

- Gofalwn fod DBS cyfredol gan bob aelod o staff, llywodraethwyr ac ymwelwyr cyson.
- Holl staff yn ymwybodol o'r polisi ac wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant.
- Pob ymwelydd yr ysgol yn cael eu goruchwyllo 100%.

- Mae un prif fynedfa yn yr ysgol a phob ymwelydd, heblaw rhieni, yn arwyddo i mewn a gwisgo bathodyn adnabod amlwg.
- Mae cymhareb goruchwyllo addas yn ystod amser chwarae a chinio.
- Mae cofnod yn cael ei gadw o gonsyrn am blant.
- Y person dynodedig amddiffyn plant yn cyfeirio achos i'r Gwasanaeth Cymdeithasol os oes amheuaeth.
- Staff addysgu wedi hyfforddi a pholisi 'Defnyddio Grym Rhesymol'.

Diogelu data

Mae'r categorïau gwybodaeth am ddisgyblion yr ydym yn eu casglu, eu dal a'u rhannu yn cynnwys:

- Gwybodaeth bersonol (megis enw, rhif unigryw disgybl a chyfeiriad)
- Nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad enedigol a chymhwysedd pryd ysgol am ddim)
- Gwybodaeth am bresenoldeb (megis nifer y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldeb)
- Gwybodaeth am asesiadau
- Gwybodaeth feddygol berthnasol
- Gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwybodaeth am waharddiadau/ymddygiad
- Gwybodaeth bersonol am rieni'r disgybl a/neu berthnasau eraill (megis enw, manylion cyswllt, perthynas â'r plentyn)

Pam yr ydym yn casglu a defnyddio'r wybodaeth hon?

Rydym yn defnyddio data disgybl:

- i gefnogi addysg y disgybl
- i fonitro ac adrodd ar gynnydd y disgybl
- i ddarparu gofal bugeiliol priodol
- i asesu ansawdd ein gwasanaethau
- i gydymffurfio â'r gyfraith ynglŷn â rhannu data
- i rannu data ar gyfer archwiliadau statudol a dibenion archwilio

Y sail gyfreithlon pam yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon:

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion, staff a llywodraethwyr dan

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 2011

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion) (Cymru) 2011
- Deddf Cyflogau a Thelerau Gwaith Athrawon

- Cytundebau cyfunol Cenedlaethol Rhwng Cyngor Awdurdod Addysg Lleol ac Undebau Athrawon Cydnabyddedig
- Cytundebau Cyfunol Lleol Rhwng Awdurdod Addysg Gwynedd ac Undebau a Gydabyddir gan yr Awdurdod ar gyfer trafodaethau ar ran Athrawon.
- Deddf Diogelu Data 1998
- Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol A'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Ddeddf Iechyd a Diogelwch Wrth Waith ayb1974 (Health and Safety at Work, etc. Act, 1974)
- Deddf Cydraddoldeb / Equality Act 2010
- Gorchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tan)2005/ Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (ffurflenni PEEPS yn cael eu cwblhau ac mae rhain yn cynnwys manylion unrhyw anabledau sydd gan blentyn/staff)
- Erthygl 6(c) ac (e) ac Erthygl 9 (g) (GDPR)
- Gallwn hefyd ddefnyddio caniatâd ar adegau (e.e. ffotograffau)

Casglu gwybodaeth am ddisgyblion:

Er bod y mwyafrif o wybodaeth am ddisgybl yr ydych yn ei darparu i ni yn orfodol, darperir ychydig ohoni i ni ar sail wirfoddol.

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn eich hysbysu p'un a fydd yn ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth benodol i ni am ddisgybl neu os oes gennych ddewis yn hyn.

Os darperir gwybodaeth i ni ar sail wirfoddol, byddwn yn gofyn i chi roi caniatâd penodol ac yn rhoi'r opsiwn i chi dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

Cadw data am ddisgyblion:

Rydym yn cadw data am ddisgyblion am gyfnodau amrywiol o amser yn dibynnu beth yw'r wybodaeth. Mae cyfnodau cadw wedi'i gynnwys ym mholisi diogelu data yr ysgol.

Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion?

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd gyda:

- ysgolion a fynychwyd gan y disgyblion ar ôl ein gadael
- ein hawdurdod addysg lleol - Cyngor Gwynedd – Gwasanaethau - Cymdeithasol, Hamdden, Cludiant, Cyllid, Ieuenctid.

Asiantaethau a gomisiynir gennym i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan :

- Llywodraeth Cynulliad Cymru (drwy HWB)
- Byrddau Arholi
- Cwmni Cynnal
- Heddlu a Thîm Troseddu'r Ifanc
- Gwasanaethau Iechyd

Cwmnïau Perthnasol sy'n hybu gweinyddiaeth a phrofiadau addysg disgyblion

- Urdd Gobaith Cymru
- CAPITA –SIMS– system presenoldeb yr ysgol
- School Gateway – system talu am ginio ysgol a chlwb gofal cyn-ysgol
- INCERTS – system i dracio cynnydd disgyblion
- Teachers to parents – system gyrru negeseuon testun ac ebyst i rieni
- EVOLVE – asesiadau risg ar gyfer trefnu ymweliadau
- Purple Mash – rhaglen i gyflwyno sgiliau TGCh i'r disgyblion

Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion?

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith a'n polisiau yn caniatáu i ni wneud hynny.

Rydym yn rhannu data am ddisgyblion gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar sail statudol. Mae rhannu data yn y modd hwn yn tanategu cyllid yr ysgol a pholisi a monitro cyrhaeddiad addysgol.

Ysgolion a gynhelir:

Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda'n hawdurdod lleol (ALI) Cyngor Gwynedd a Llywodraeth y Cynulliad dan Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011

Gofynion casglu data:

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011

Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011

Gofyn am fynediad at eich data personol

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad at y wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. Er mwyn gwneud cais am eich gwybodaeth personol, neu ofyn am fynediad at gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch â Phennaeth yr ysgol neu'r Swyddog Diogelu Data ysgolion:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Cyngor Gwynedd

Stryd y Castell

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

Mae gennych hefyd yr hawl i:

- wrthwynebu i ddata personol gael ei brosesu sy'n debygol o achosi, neu sy'n achosi, niwed neu ofid
- atal unrhyw beth rhag cael ei brosesu er dibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu i benderfyniadau gael eu gwneud gan ddulliau awtomataidd
- cywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio data personol anghywir, mewn amgylchiadau penodol
- hawlio iawndal am y niwed a achoswyd o ganlyniad i dorri rheoliadau Diogelu Data

Os oes gennych bryder ynglŷn â'r modd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi nodi eich pryder gyda ni i ddechrau. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy

<https://ico.org.uk/concerns/>

Cysylltu

Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â:

Nia Ferris,

Pennaeth Ysgol Morfa Nefyn

neu

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Cyngor Gwynedd

Stryd y Castell

Caernarfon

Y Cwricwlwm

Cynllunir y gwersi a addysgir yn yr ysgol mewn perthynas â gofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, a'r Maes Llafur Addysg Grefyddol a gytunir yn lleol. Nôd yr ysgol yw cyflwyno Cwricwlwm a fydd yn galluogi ein disgyblion:

- i ddatblygu'r sgiliau elfennol-siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu a rhifedd.
- cael y cyfle i astudio a dehongli'r amgylchedd
- datblygu agweddau cymdeithasol hapus ac iach
- derbyn profiadau cyfoethog ac amrywiol
- trin TgCH yn hyderus.

Gwelir y Cwricwlwm a ddilynir gan blant o oedran Meithrin i Blwyddyn 2 yn Gyfnod Sylfaen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ffocws ar ddarparu'r



cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau drwy ysgogi gweithgareddau chwarae strwythuredig sy'n cael eu gwau i'r profiadau dysgu.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant hyn, a adnabyddir fel Cwricwlwm 2008, yn cynnwys Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Technoleg, Y Dyniaethau (Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol) a'r celfyddydau mynegiannol (celf, Drama, Cerddoriaeth, dawns ac Addysg Gorfforol). Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi yn y pynciau hyn ar y cyd â'r Fframwaith sgiliau sy'n sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu'r pedair sgil allweddol o Feddwl, Cyfathrebu, TgaCH a Rhif.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol statudol newydd yn cael ei gyflwyno i gefnogi plant rhwng 5 a 14 oed i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

- Mae llythrennedd yn disgrifio set o sgiliau, yn cynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas.
- Mae rhifedd yn seiliedig ar hanfodion mathemategol. Mae rhifedd yn disgrifio'r set o sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau go iawn mewn amrywiaeth o

sefyllfaoedd drwy ddefnyddio rhesymu mathemategol i gynllunio sut i ddatrys y broblem, ac wedyn cynnal y prosesau mathemategol i ddod o hyd i'r ateb.

- Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn nodi'r disgwyliadau blynyddol o ran llythrennedd a rhifedd a bydd yn helpu plant i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws holl bynciau'r cwricwlwm a thrwy ddefnyddio amrywiaeth eang o weithgareddau.

Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae cymhwysedd digidol yn un o 3 cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd (y lleill yw llythrennedd a rhifedd). Mae'r Fframwaith wedi'i ddatblygu ar gyfer dysgwyr 3–16+ oed gyda'r nod o ddatblygu sgiliau o'r cychwyn cyntaf gyda'r sgiliau y mae angen i blant eu dysgu. Mae'n canolbwyntio ar sgiliau digidol y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth eang o bynciau a sefyllfaoedd. Mae iddo 4 llinyn:



Dinasyddiaeth:

- Hunaniaeth, delwedd ac enw da
- Iechyd a lles
- Hawliau digidol, trwyddedu a pherchnogaeth
- Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio.

Rhyngweithio a chydweithio:

- Cyfathrebu
- Cydweithio
- Storio a rhannu.

Cynhyrchu:

- Cynllunio, cyrchu a chwilio
- Creu
- Gwerthuso a gwella.

Data a meddwl cyfrifiadurol:

- Datrys problemau a modelu
- Llythrennedd gwybodaeth a data.

Mae'r Fframwaith cymhwysedd digidol yn nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i lwyddo mewn byd cynyddol ddigidol.

Y Cyfnod sylfaen

**Plant Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a
Blwyddyn 2.**

Mae Cwricwlwm newydd y Cyfnod Sylfaen wedi ei adeiladu o amgylch y saith maes a ganlyn i gefnogi ac annog lles a datblygiad personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol y plentyn.

1. Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac amryfaliaeth ddiwylliannol

Mae'r maes hwn o ddysgu yn canolbwyntio ar y plant yn dysgu amdanynt eu hunain, a'u perthynas gyda phlant ac oedolion eraill.

Anogir hwy i ddatblygu eu hunan barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol gan ddysgu am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill. Cefnogir y disgyblion i ddod yn feddylwyr a dysgwyr hyderus, hyfedr ac annibynnol.



2. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar y disgyblion yn cael eu hydrwytho mewn profiadau a gweithgareddau ieithyddol. Mae eu sgiliau yn datblygu drwy siarad, cyfathrebu a gwrando.

Anogir hwy i gyfathrebu eu hanghenion a'u teimladau ac ailadrodd profiadau. Maent yn cael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen a rhoddir iddynt ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau ac ysgrifennu.



3. Datblygu'r Gymraeg

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar ddisgyblion yn dysgu defnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu yn y Gymraeg orau y gallant. Datblygir sgiliau drwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau pleserus ac ymarferol a gynllunir a defnyddio ystod o ysgogiadau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y disgyblion a'u cynyddu. Defnyddir profiadau llafar y disgyblion i ddatblygu eu sgiliau darllen. Maent yn gwrano ar ystod o ysgogiadau, yn cynnwys deunyddiau clywedol a meddalwedd TGaCh.

4. Datblygiad Mathemategol



Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg drwy ddatrys problemau. Maent yn

defnyddio rhifau yn eu gweithgareddau dyddiol ac yn cael eu cyflwyno i ystod eang o sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan symud i ddefnyddio dulliau mwy ffurfiol o weithio a chofnodi pan fyddant yn barod yn ddatblygiadaol. Byddent yn ymchwilio, trefnu, cyfatebu, dilyniannu a chymharu gwrthrychau a chreu patrymau. Maent yn defnyddio iaith fathemategol

brïodol i esbonio'u rhesymu a chyflwyno eu gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd yn defnyddio gwrthrychau, darluniau, diagramau, geiriau, symbolau a TG Ch.

5. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn profi drwy ymholi ac ymchwilio. Rhoddir brofiadau i blant sy'n cynyddu eu chwilfrydedd am y byd o'u hamgylch a dechrau deall digwyddiadau, pobl a lleoedd y gorffennol, pethau byw a'r gwith y mae pobl o'u hamgylch yn ei wneud. Maent yn dysgu arddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch tuag at bopeth byw a'r amgylchedd. Maent yn dysgu i fynegi eu syniadau, eu barn a'u teimladau eu hunain, gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd.



6. Datblygiad Corfforol

Mae'r maes hwn o ddysgu yn canolbwyntio ar ddatblygiad corfforol y plant. Mae brwdfrydedd ac egni ar gyfer symud yn cael ei hybu'n barhaus drwy eu cynorthwyo i ddefnyddio eu cyrff yn effeithlon, drwy annog ymwybyddiaeth ofodol, cydbwysedd, rheoli a chydlynw a datblygu sgiliau symudol a llawdrinol. Cyflwynir i'r disgyblion ystod eang o weithgareddau fydd yn datblygu eu sgiliau corfforol mân er engraifft trîn offer bach yn y dosbarth a dal pensiliau a sisyrnau, yn ogystal â'u sgiliau corfforol mawr er engraifft rhedeg, reidio beic, nofio a.y.b. Maent hefyd yn cael eu cyflwyno i gysyniadau iechyd, hylendid a diogelwch a phwysigrwydd diet, gorffwys, cwsig ac ymarfer.



7. Datblygiad Creadigol



Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu ar eu dychymyg a'u creadigrwydd drwy'r cwricwlwm. Ysgogir eu chwilfrydedd naturiol a'u tueddiad i ddysgu drwy brofiadau synhwyrol bob dydd. Mae'r disgyblion yn ymrwymo mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol mewn Celf, Crefft, Cynllunio, Cerddoriaeth, Dawns a Symudiad.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais ar:

- ddatblygu'r plant mewn sgiliau a dealltwriaeth,
- lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan
- agweddau cadarnhaol at ddysgu fel y bydd y plant yn mwynhau ac am barhau â'u haddysg

am gyfnod hirach

- hunan-barch a hunan-hyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio perthynas newydd ag eraill
- arsylwi a sgiliau mynegiannol a chreadigol i annog eu datblygiad fel unigolion, gyda ffyrdd gwahanol o ymateb i brofiadau
- gweithgareddau awyr agored er mwyn i'r plant gael profiad ymarferol o ddatrys problemau go iawn mewn agweddau fel mathemateg a gwyddoniaeth a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd

Sut bydd y plant yn dysgu?


Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar blant yn dysgu trwy wneud. Dylai plant ifanc gael mwy o gyfle i ennill profiad ymarferol trwy chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau. Er enghraifft, dylai mathemateg fod yn fwy ymarferol er mwyn i blant weld sut mae problemau'n cael eu datrys a pha mor bwysig yw mathemateg yn eu bywydau bob dydd. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando'r plant, a fydd yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar sut mae pethau'n gweithio a dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau.

Cwricwlwm Cenedlaethol 2008

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y **Cyfnod Sylfaen**.

Cymraeg a Saesneg (Llafaredd / Darllen / Ysgrifennu)

Mae profiadau a gyflwynir i'r disgyblion yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl. Maent yn datblygu'n wrandawyr gweithredol ac ymatebol mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Gwneir defnydd rheolaidd o ymdrin a thestunau diddorol o bwys i'r plant gan ddod yn ysgrifennwyr cymwys, gan ysgrifennu'n glir ac yn gydlynol mewn amryw o ffurfiau ac at wahanol ddibenion. Cânt eu cyflwyno â defnydd sy'n lledu gorwelion ac ehangu'r meddwl. Byddant yn gweithio'n fwyfwy manwl gywir gan ddechrau gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain ac eraill.



Mathemateg

Mae'r disgyblion yn parhau i ddatblygu agweddau cadarnhaol at fathemateg ac yn ymestyn eu meddwl mathemategol drwy ddatrys problemau, cyfathrebu a rhesymu'n fathemategol. Maent yn ymestyn eu defnydd o'r system rif, gan symud o gyfri'n ddibynadwy i gyfrifo'n rhugl, gan gynnwys yng nghyd-destun arian, er mwyn datrys problemau rhifiadol. Maent yn ceisio datrys problem gyda dull pen cyn defnyddio unrhyw ddull arall ac yn defnyddio dulliau cyfrifo ysgrifenedig sy'n briodol i'w lefel dealltwriaeth. Maent yn datblygu strategaethau amcangyfrif a'u cymhwyso i wirio cyfrifiadau. Maent yn archwilio amrywiaeth helaeth o siapiau a'u priodweddau ac, yng nghyd-destun mesurau, yn defnyddio ystod o unedau ac offer ymarferol yn fwyfwy manwl gywir. Byddant yn casglu, cynrychioli a dehongli data at amryw o ddibenion. Byddant yn dewis, trafod, esbonio a chyflwyno eu dulliau a'u rhesymu gan ddefnyddio ystod gynyddol o iaith, diagramau a siartiau mathemategol.

Gwyddoniaeth

Addysgir dysgwyr i berthnasu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol i gymwysiadau gwyddoniaeth ym mywyd bob dydd, gan gynnwys materion cyfredol.



Dylid eu haddysgu i gydnabod bod modd gwerthuso syniadau gwyddonol trwy gyfrwng gwybodaeth a gasglwyd o arsylwadau a mesuriadau. Mae ein hathrawon yn annog y dysgwyr i reoli eu dysgu eu hunain a datblygu strategaethau dysgu a meddwl sy'n briodol i'w haeddfedrwydd drwy archwilio ac arbrofi. Mae'r gweithgareddau yn meithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd a bod yn ddiddorol, pleserus, perthnasol a heriol i'r dysgwr.

Pynciau Di-graidd Dylunio a Thechnoleg

Addysgir y disgyblion i ddylunio a gwneud cynhyrchion syml trwy gyfuno sgiliau dylunio a gwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth eu hunain. Gwneir hyn yn aml mewn modd sy'n cefnogi eu dysgu mewn meysydd eraill, ac sydd wedi ei gynllunio i gynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth o fyd gweithgynhyrchu. Rydym yn eu hannog i fod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddylunio a gwneud.



Y Dyniaethau

Mae'r maes hwn yn cynnwys Hanes a Daearyddiaeth gyda'r ddau ohonynt yn bynciau statudol yng Nghwricwlwm 2008 yn ogystal ac Addysg Grefyddol statws anstatudol. Drwy Hanes mae ein disgyblion yn dysgu am bobl, digwyddiadau a lleoedd arwyddocaol, o'r gorffennol diweddar a phell yn ôl. Maent yn dysgu am newid a pharhad yn eu hardal eu hunain, yng Nghymru a thu draw. Mae ein plant yn defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth i'w cynorthwyo i ymchwilio i'r gorffennol.

Rydym yn aml o fewn ein thema yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn lleol ac ymhellach draw. Mae Daearyddiaeth yn datblygu ac yn ysgogi diddordeb dysgwyr mewn lleoedd ac yn y byd o'u cwrpas ac yn meithrin yr ymdeimlad o ryfeddod am leoedd a'r byd o'u cwrpas. Drwy astudiaeth o'u hardal eu hunain yng Nghymru, y byd tu draw, amgylcheddau a digwyddiadau gwahanol yn y newyddion, mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut mae lleoedd a sut a pham y meant yn newid. Trwy weithgareddau ymarferol a gwaith ymchwil eu hunain yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau i gasglu a gwneud synnwyr o wybodaeth, defnyddio mapiau, meddwl yn greadigol a rhannu syniadau trwy drafodaeth. Ceisir eu hannog i ddeall a chydabod eu bod yn ddinasyddion bydeang.

Addysg Grefyddol

Ni does gan Ysgol Morfa gysylltiad ag unrhyw grefydd neu enwad penodol. Fodd bynnag, addysgir Addysg Grefyddol i bob disgybl, gyda'r ffocws ar hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol ac ymenyddiol disgyblion. Yn unol â Maes Llafur Cytun yr AALI, mae'r gwersi hyn yn archwilio ysbrydolrwydd mewn cyd-destun bras Gristnogol, rhoddir y cyfle hefyd i'r disgyblion gymharu Cristnogaeth gyda chrefyddau eraill. Yn unol â gofynion statudol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithred ddyddiol o addoli. Bydd y gweinidog Y Parch R O Roberts a Mrs Nia Williams o Bwllheli yn ymuno â ni unwaith y mis. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plentyn ymaith o

wersi AG neu Addoli Torfol. Cysylltwch â'r Pennaeth pe baech yn dymuno ymarfer yr hawl hwn.

Celf a Dylunio

Mae ein disgyblion yn ymrwmo â gwaith artistiaid mewn modd integredig â gwaith artistiaid a chynllunwyr sy'n gwneud ymchwiliadau creadigol a'u gwaith celfyddydol eu hunain. Mae celf a dylunio yn ysgogi creadigrwydd a dychymyg, ac mae'n herio'r dysgwyr i lunio barn wybodus a gwneud penderfyniadau ymarferol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau, maent yn cyfleu'u syniadau a'u teimladau trwy gyfrwng iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrol. Rydym yn credo bod archwilio, gwerthfawrogi a mwynhad mewn celf a dylunio yn cyfoethogi bywydau y dysgwyr.

Cerddoriaeth

Mae addysg gerddorol yn galluogi'r dysgwyr i ymwneud â cherddoriaeth a mwynhau creu cerddoriaeth. Trwy gymryd rhan weithredol mewn gwaith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sensitifrwydd i gerddoriaeth. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cerddorol sy'n ymwneud â rheoli, trin a chyflwyno sain. Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y sgiliau hynny'n cynnwys canu, chwarae offerynnau ac ymarfer; creu cerddoriaeth yn fyrfyr, cyfansoddi a threfnu cerddoriaeth; a gwrando ar gerddoriaeth a'i gwerthuso. Addysgir plant Blwyddyn 2 a 3 i ganu'r recorder neu ukelely.

Addysg Gorfforol

Mae addysg gorfforol yn annog y dysgwyr i archwilio a datblygu eu sgiliau corfforol sy'n hanfodol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Trwy adeiladu ar y sgiliau hyn ceir cyfleoedd i fod yn greadigol ac yn ddychmygus mewn gweithgareddau gymnasteg a dawns. Bydd gweithgareddau cystadleuol yn cynnig cyfle i ddysgu sgiliau gemau a chwarae mewn tîm, yn ogystal â sut i redeg yn gyflymach, neidio'n uwch a thaflu'n bellach. Mae y dysgwyr yn dechrau deall bod Addysg Gorfforol yn ymwneud â dysgu sut i deimlo'n iach a pharhau'n ffit tra eu bod yn cael hwyl, a gwybod sut mae'r gwahanol fathau o weithgareddau hyn yn



gymorth iddynt barhau'n iach ac yn heini.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Mae ABaCH yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau dysgu sy'n adlewyrchu annibyniaeth gynyddol ac ymwybyddiaeth gorfforol a chymdeithasol dysgwyr. Mae angen iddynt gael eu cyfarwyddo â'r sgiliau i ddatblygu perthynas effeithiol, ymgymryd â chyfrifoldeb personol cynyddol a chadw'u hunain yn ddiogel. Mae ABaCH yn cynorthwyo dysgwyr i ymdopi â'r newidiadau ar oed aeddfedrwydd, yn eu cyflwyno i fyd ehangach ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad gweithredol i'w cymunedau.